# Prosiect peilot Aros a Chwarae

Cerdyn adroddiad

## Disgrifiad

Anogir plant a theuluoedd i aros ar ôl ysgol i chwarae ar dir ysgolion ym Merthyr Tudful. Caiff y sesiynau eu cefnogi i ddechrau gan y swyddogion Ysgolion Bro a Swyddogion Ymgysylltu/Cyswllt Teuluoedd.

## Symbylwyr ac anogwyr polisi

- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Argymhellion gan Asesiadau Digonolrwydd Chwarae yr awdurdod lleol
- Defnyddio ariannu Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan i gynorthwyo gyda phrynu offer
- Canllawiau Ysgolion Bro

## Symbylwyr ac anogwyr pobl

- Tîm Datblygu Chwarae yr awdurdod lleol
- Rheolwr Ysgolion Bro brwdfrydig
- Swyddogion Ysgolion Bro profiadol
- Penaethiaid a staff ysgolion cefnogol
- Chwarae Cymru
- Swyddogion ymgysylltu a chyswllt teuluoedd (mewn ysgolion)

## Adnoddau/galluogwyr

- Amser swyddog (Chwarae Cymru ac Ysgolion Bro)
- Darparu offer a lle i'w storio
- Cynyddwyd parodrwydd penaethiaid i gymryd rhan o ganlyniad i gydnabod y diffyg cyfleoedd i chwarae'n ystod y pandemig COVID-19
- Mae rhieni'n chwilio am fwy o gyfleoedd i blant chwarae'r tu allan

## Proses

- Cytuno ar y model gyda'r ysgol
- Cytuno ar rolau a chyfrifoldebau
- Peilot chwe-wythnos o hyd gyda monitro parhaus
- Cynhyrchu dadansoddiad opsiynau ar gyfer cynnal y gweithgaredd ar lefel ysgol

## Heriau

- Angen iddo weithredu a chael ei roi ar waith ar sail ysgol-i-ysgol unigol
- Efallai y caiff chwarae ei ystyried fel rhywbeth sy'n digwydd ar ddiwrnod neu amser penodol

## Allbynnau/canlyniadau

- Ymateb i Gynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae
- Cefnogi canlyniadau Ysgolion Bro
- Cefnogi ymgysylltiad teuluoedd
- Mae rhieni'n croesawu cyfleoedd i'w plant chwarae a chymdeithasu gyda rhieni eraill
- Mwy o blant yn chwarae pan ddaw'r diwrnod ysgol i ben
- Defnydd da o ofod cymunedol
- Adolygu'r pecyn cymorth – *Defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau addysgu*

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif. 1068926 © Chwarae Cymru

Hydref 2024